**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD IAU, 6 GORFFENNAF 2023**

**BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: J.Hurley (Chair), N.Jenkins a/ac C.Phillips

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

I.Guy, H.Lervy, C.Millis, A.Spooner-Cleverly, K.Windsor Brown, S.McCluskie ac A.Thomas

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd mai'r Cyng. J Hurley fyddai Cadeirydd y cyfarfod. Cynigiwyd y penderfyniad gan y Cyng. N Jenkins a'i eilio gan y Cyng. C Phillips.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion cyfarfod blaenorol Bwrdd Addysg, Sgiliau a Lles y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cyfrif gwir a chywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Bod Blaenraglen Waith Bwrdd Addysg, Sgiliau a Lles y Cabinet ar gyfer 2022/2023 yn cael ei nodi.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

## 7. HWB CYFLOGADWYEDD YNG NGHANOLFAN SIOPA ABERAFAN

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r adroddiad a'r atodiad a ddosbarthwyd, fod yr Aelodau'n cymeradwyo ac yn cefnogi:

1. Ehangu'r brydles ar gyfer Hwb Cyfleoedd CNPT yng Nghanolfan Siopa Aberafan am 12 mis pellach
2. Y costau a ariannwyd drwy gyllideb Cymunedau am Waith a Mwy Llywodraeth Cymru

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Darparu cefnogaeth cyflogadwyedd a lles i gymuned Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 10 Gorffennaf 2023.

**Ymgynghoriad:**
Nid oedd angen unrhyw ymgynghoriad allanol.

## 8. TYMHORAU YSGOL A DYDDIADAU GWYLIAU

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r adroddiad a'r atodiad a ddosbarthwyd, fod yr Aelodau'n cymeradwyo:

1. Cyflwyno'r dyddiadau tymhorau ysgol arfaethedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/2026 i Weinidogion Cymru.
2. Cydymffurfio â chyflwyno hyn erbyn diwrnod gwaith olaf mis Awst 2023.
3. Cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol a osodir gan Weinidogion Cymru.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Penderfynu ar ddyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion arbennig a gynhelir ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/2026.
Galluogi'r awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 10 Gorffennaf 2023.

**Ymgynghoriad:**
Cynhaliwyd ymgynghoriad ac ni dderbyniwyd sylwadau gwrthwynebus.

9. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD CHWARTER 4**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r adroddiad a'r atodiadau, caiff yr adroddiad ei nodi ar gyfer monitro.

10. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd dim.

**CADEIRYDD**